



Cynllunio Seilwaith  
Cenedlaethol  
Temple Quay House  
2 Y Sgwâr  
Bryste,  
BS1 6PN

Gwasanaethau  
Cwsmeriaid: 0303 444 5000  
e-bost: awelymor@planninginspectorate.gov.uk

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 20 Medi 2023

Annwyl Syr/ Madam

**Deddf Cynllunio 2008 – Adrannau 116 a 117; a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith  
(Asesu Effaith Amgylcheddol) 2017 - Rheoliad 31**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn Rhoi Caniatâd  
Datblygu i Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Hysbysiad o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol**

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o gyhoeddiad penderfyniad a datganiad o'r rhesymau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu mewn perthynas â'r cais uchod.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol fel y penderfynwr o dan a103 ac a104 Deddf Cynllunio 2008 (Deddf Cynllunio 2008) wedi penderfynu y dylid rhoi caniatâd datblygu ac felly mae wedi gwneud Gorchymyn o dan a114(1)(a) o Ddeddf Cynllunio 2008.

Gellir gweld copïau electronig o'r dogfennau penderfyniad, gan gynnwys llythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a thestun y Gorchymyn a wnaed yn:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/>

Mae'r Adroddiad Argymhelliaid a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan yr Awdurdod Archwilio hefyd ar gael ar yr un ddolen.

Bydd copïau caled o'r ddogfennaeth benderfynu hefyd ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd yr Arolygiaeth Gynllunio (drwy apwyntiad gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod). Os ydych yn dymuno derbyn copi o lythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a thestun y Gorchymyn, ysgrifennwch at, neu anfonwch e-bost atom gan ddefnyddio'r

manylion cyswllt a ddarperir ar frig y llythyr hwn. Ni chodir tâl os ydych yn dymuno i ni anfon copi atoch.

Nid oes hawl i apelio o dan Ddeddf Cynllunio 2008. Gall y Llys Uchel ddiddanu achos i gwestiynu Gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu o'r diwrnod y cyhoeddir y Gorchymyn Caniatâd Datblygu neu, os yn ddiweddarach, y diwrnod y cyhoeddir y llythyr penderfyniad. Y weithdrefn yw gwneud cais am adolygiad barnwrol. Rhaid gwneud hyn o fewn y cyfnod statudol o amser a nodir yn a118 o Ddeddf Cynllunio 2008. Cysylltwch â'r Swyddfa Llys Gweinyddol i gael rhagor o wybodaeth ar 0207 947 6655 neu dilynwch y ddolen hon:

<http://www.justice.gov.uk/courts/rcj-rolls-building/administrative-court/applying-for-judicial-review>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am lythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu'r Gorchymyn a wnaed, cysylltwch â:

### **Adran Diogelwch Ynni a Sero Net**

Ebost: [beiseip@energysecurity.gov.uk](mailto:beiseip@energysecurity.gov.uk)

Post: Head of the Energy Infrastructure Planning Delivery Team  
Department for Energy Security and Net Zero  
3-8 Whitehall Place  
London  
SW1A 2AW

Fel arall, os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y prosiect gallwch ymweld â gwefan yr Ymgeisydd yn: [www.awelymor.cymru](http://www.awelymor.cymru) neu cysylltwch â'r Ymgeisydd ar 0800 1978232.

Yn gywir

*David Price*

**Pennaeth Grŵp Gweithrediadau 2  
Ar gyfer ac ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net**

Nid yw'r cyfathrebu hwn yn gyngor cyfreithiol.

Edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk>

